

HYFFORDDIANT AR-LEIN I GYNGHORWYR

CYNEFINO I GYNGHORWYR NEWYDD

BETH SYDD AR GAEL?

Paratowyd y deunyddiau hyfforddiant ar-lein i'ch cynorthwyo chi i ddatblygu eich corff o wybodaeth fel Cynghorydd.

Mae'r deunyddiau'n trafod 7 maes penodol, ac mae 'Cynefino' yn un ohonynt. Mae'r deunyddiau eraill yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad, y Cyngor yn Gyflogydd, Deall y Gyfraith, Cyllid Llywodraeth Leol, Iechyd a Diogelwch ac Amrywiaeth a Chynhwysiant.

RHOI CYCHWYN ARNI

Mae'r modiwl hwn yn trafod 'Cynefino i Gynghorwyr Newydd' ac mae'n mynd trwy'r elfennau allweddol canlynol:-

- ▶ Cyfrifoldebau ac ymrwymïadau cyfreithiol y Cyngor
- ▶ Grymoedd a dyletswyddau statudol y Cyngor
- ▶ Agweddau cyfreithiol allweddol sy'n effeithio Cyngorau megis cyfleoedd cyfartal a diogelu data
- ▶ Ffynonellau cyngor

PWRPAS Y MODIWL

Yw eich helpu i wybod:-

- ▶ Beth mae cyngorau cymuned a thref yn ei wneud
- ▶ Sut maen nhw'n gwasanaethu eu cymunedau
- ▶ Mwy am fyd Cyngorau sy'n newid yn gyson
- ▶ Beth sy'n gwneud Cyngor da
- ▶ Eich rôl yn Gyngorydd
- ▶ Eich ymrwymiad a sut i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad
- ▶ Sut i gyflawni eich dyletswyddau a chyfrifoldebau
- ▶ Sut i fod yn llais y gymuned

EICH ANGHENION HYFFORDDIANT

Mae hyfforddiant yn hanfodol i'ch rôl fel Cyngorydd fel y mae i unrhyw rôl arall rydym yn ei chyflawni. Bydd hyfforddiant yn rhoi ichi'r:-

WYBODAETH y mae ei hangen arnoch er mwyn deall beth all a beth na all y Cyngor ei wneud

DEALLTWRIAETH o'r wybodaeth honno a sut ellir ei defnyddio i gefnogi eich cymuned

SGILIAU i allu defnyddio'r wybodaeth mewn ffordd fedrus a blaengar

Yn ddiweddarach yn y modiwl cewch wybod am yr hyfforddiant sydd ar gael ichi a'ch cyd Gynghorwyr

NODAU CYNGOR

Cynrychioli a gwasanaethu'r gymuned trwy:-

- ▶ Adeiladu a chynnal cymunedau
- ▶ Darparu gwell gwasanaethau cyhoeddus
- ▶ Adeiladu democratiaeth leol

Mae'r Canllaw Cyngorydd Da yn ddogfen ddefnyddiol i gyfeirio ati:

<http://www.onevoicewales.org.uk/OVWeb/UserFiles/Files/Good%20Practice%20General/Good%20Councillors%20Guide%202017.PDF>

CORFF CORFFORAETHOL

- ▶ Mae'n un endid cyfreithiol a nodir o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, wedi'i diwygio – golyga hynny na all unrhyw ran o'r Cyngor weithredu'n unigol ac mae penderfyniadau yn gyfrifoldeb y Cyngor yn ei grynswth ac nid unigolyn neu grŵp a gefnogodd y penderfyniad
- ▶ Mae ganddo rymoedd, a bennwyd yn gyfreithiol
- ▶ Gall weithredu i ddefnyddio ei rymoedd
- ▶ Gall godi arian drwy'r 'praesept'
- ▶ Mae'n atebol am ei benderfyniadau a'i weithredoedd
- ▶ Mae ganddo rai dyletswyddau y mae'n rhaid iddo eu cyflawni

Y TÎM

Mae tîm cyfan o bobl sy'n gweithio gyda'i gilydd i wneud cyngor bywiog a llwyddiannus. Mae gan bob un ohonynt rolau a chyfrifoldebau gwahanol, ond gyda'i gilydd maent yn gweithio er budd y gymuned. Cydrannau'r tîm yw:-

- ▶ Cynghorwyr
- ▶ Y Cadeirydd
- ▶ Yr Is Gadeirydd
- ▶ Clerc/(Swyddog Ariannol Cyfrifol)
- ▶ Swyddogion a staff
- ▶ Gwirfoddolwyr

Y CLERC

- ▶ Mae'n gweithio'n agos gyda'r Cadeirydd
- ▶ Mae'n weithiwr cyflogedig a gall fod yn llawn-amser neu'n rhan-amser
- ▶ Fe'i gelwir yn 'Swyddog Priodol' yn y gyfraith ac mae'n adrodd i'r Cyngor llawn
- ▶ Rôl y Clerc yw cyngori'r Cyngor a gweithredu ei benderfyniadau
- ▶ Yn y rhan fwyaf o Gynghorau, mae'r Clerc hefyd yn cael ei ddynodi'n Swyddog Ariannol Priodol
- ▶ Gall y Cyngor ddirprwyo penderfyniadau i'r Clerc
- ▶ Cynghorau sy'n gwneud y penderfyniadau – Clercod sy'n eu gweithredu (oni bai fod y gwaith gwneud penderfyniad yn cael ei ddirprwyo)

Y GYFRAITH

Dirprwywyd grymoedd i'r Cyngor o dan Ddeddfau a Rheoliadau Llywodraeth Leol:

Mae'r rhain yn perthyn i ddau brif faes:

- ▶ Dyletswyddau statudol – pethau y mae'n RHAID i gyngor eu gwneud
- ▶ Grymoedd arddewisol – pethau Y GALL cyngor eu gwneud

Mae gan y Cyngor ddyletswydd hefyd i gydymffurfio â deddfwriaeth arall:

- ▶ Cyfraith Cyflogaeth – gan fod y Cyngor yn gyflogydd
- ▶ Iechyd & Diogelwch
- ▶ Diogelu Data
- ▶ Rhyddid Gwybodaeth
- ▶ Deddf yr Iaith Gymraeg
- ▶ Deddf Cydraddoldeb

i nodi rhai yn unig

RHAI ENGHREIFFTIAU O RYMOEDD DEDDFWRIAETHOL

RHANDIROEDD – Deddf Rhandiroedd 1908

MYNWENTYDD – Gorchymyn Mynwentydd Awdurdodau Lleol 1977

CYSGODFANNAU BYSIAU – Deddf Llywodraeth Leol 1953

CANOLFANNAU CYMUNEDOL – Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976

TRAFNIDIAETH GYMUNEDOL – Deddf Llywodraeth Leol ac Ardrethu 1997

ATAL TROSEDDU – Deddf Llywodraeth Leol ac Ardrethu 1997

ADLONIAENT & CELFYDDYDAU – Deddf Llywodraeth Leol 1970

PRIFFYRDD – Deddf Priffyrdd 1980 (Goleuadau Stryd er enghraifft)

LLECYNNAU AGORED – Deddf Iechyd y Cyhoedd 1936 – Deddf Llecynnau Agored 1906

PARCIAU & THIROEDD MWYNHAD - Deddf Llywodraeth Leol 1972

TAI BACH CYHOEDDUS – Deddf Iechyd y Cyhoedd 1936

TWRISTIAETH - Deddf Llywodraeth Leol 1972

COFEBION RHYFEL – Deddf Cofebion Rhyfel (Grymoedd Awdurdodau Lleol 1923)

CYNLLUNIO

Un o rolau pwysig y Cyngor yw ystyried a chynnig sylwadau ar geisiadau cynllunio i Awdurdod Cynllunio'r prif gyngor neu i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol.

Mae'r Cyngor hefyd yn gallu cynnig sylwadau ar y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer yr ardal ac mae hwn yn gyfle pwysig iawn i'ch Cyngor allu dylanwadu ar y defnydd o dir yn ei ardal i'r dyfodol.

Er mwyn cael mwy o wybodaeth am faterion cynllunio awgrymir eich bod yn troi at wefan Cymorth Cynllunio Cymru:

<http://www.planningaidwales.org.uk/>

BETH MAE CYNGHORWYR YN EI WNEUD?

- ▶ Gwasanaethu eich cymuned – helpu gwneud penderfyniadau ar ran y gymuned er budd y gymuned
- ▶ Gwneud Penderfyniadau
- ▶ Monitro effaith y penderfyniadau a wnaed
- ▶ Chwarae eu rhan yn lleol – dod i wybod am anghenion y gymuned

Peidiwch byth ag addo gwneud rhywbeth sydd y tu hwnt i'ch rheolaeth chi neu reolaeth y Cyngor.

EICH DYLETYDDEDAU YN GYNGHORYDD

- ▶ Mynychu cyfarfodydd – rydych yn cael eich gwysio i fynychu cyfarfodydd a dylech fod yno oni bai fod gennych reswm da i fod yn absennol
- ▶ Paratoi ar gyfer cyfarfodydd – darllenwch yr agenda, y cofnodion a'r papurau ategol fel eich bod yn gwybod ymlaen llaw beth fydd yn cael ei drafod
- ▶ Ffurio barnau gwrthrychol – gofalwch eich bod yn deall a gwnewch yn siwr fod eich barn yn seiliedig ar ffeithiau
- ▶ Gofalu fod y Cyngor yn cael ei reoli'n iawn – mae hon yn ddyletswydd i bob Cynghorydd
- ▶ Gweithredu ar ran yr holl etholwyr – ac nid yn unig y sawl a bleidleisiodd ichi
- ▶ Cynnal safonau ymddygiad derbyniol – rydych yn llygad y cyhoedd ac mae'n rhaid ichi gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad

Y COD YMDDYGIAD

Mae'n mynnu eich bod yn cadw at egwyddorion 'Nolan' ar safonau a moeseg mewn bywyd cyhoeddus. Dylech weithredu'n:-

- ▶ Agored gyda pharch ac integriti
- ▶ Heb ffafr na malais

A

- ▶ Datgan buddiannau, yn bersonol a phan maent yn rhagfarnol

Argymhellir eich bod yn darllen y canllawiau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru :-

<https://www.ombudsman.wales/wp-content/uploads/2018/03/Code-of-Conduct-Community-Councils-August-2016-ENGLISH.pdf>

BETH YW BUDDIANT PERSONOL?

“A allai penderfyniad gael ei ystyried yn rhesymol yn un sy’n effeithio eich llesiant chi, ac unrhyw bobl eraill y mae gennych gysylltiad â nhw, i raddau llai neu fwy nac unrhyw un arall”

BUDDIANNAU PERSONOL

Buddiant personol yw:-

'Buddiant proffesiynol neu bersonol y tu hwnt i'ch rôl yn Gyngorydd.
Buddiant all wrthdaro gyda'ch dyletswydd yn Gyngorydd i
wasanaethu'r gymuned'

Mae'n rhaid ichi ddatgan buddiant personol cyn gynted ag yr ydych
yn ymwybodol y gallech chi, neu bobl yn agos atoch, elwa mwy na
phobl eraill yn y gymuned o ganlyniad mater sy'n cael ei drafod. e.e.
Enghraifft bosib o fuddiant personol yw eich cyflogydd, daliadau tir yn
y gymuned rydych yn ei gwasanaethu, buddiannau teulu a busnes
neu swyddi rheolaeth mewn mudiadau eraill fel Trysorydd

BUDDIANNAU RHAGFARNOL

Mae Buddiant Personol yn mynd yn Fuddiant Rhagfarnol:

“Os yw aelod o’r cyhoedd sy’n gwybod y ffeithiau yn ystyried yn rhesymol fod eich buddiant personol yn un mor arwyddocaol fel ei fod yn debygol o ragfarnu eich barn am les y cyhoedd”

RHEOLAU TRAFOD

- ▶ Mae'r rhan fwyaf o benderfyniadau yn ganlyniad cynnig i'r Cyngor
- ▶ Fel arfer rhaid cyflwyno cynigion yn unol â Rheolau Sefydlog
- ▶ Dylai cynigion fod yn ysgrifenedig a dylid eu rhoi i'r Swyddog Priodol o leiaf 7 diwrnod cyn cyfarfod
- ▶ Rhaid i gynigion fod yn "intra vires" ac yn benodol
- ▶ Rhaid i gynigion gael eu trafod
- ▶ Os ydynt yn cael eu pasio rhaid iddo fod yn benderfyniad mwyafrif – yna fe ddaw yn "benderfyniad"
- ▶ Nid oes angen hysbysiad ysgrifenedig er mwyn cyflwyno rhai cynigion

A fyddaf yn cael fy nhalu?

- ▶ Cyflwynodd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 y drefn o dalu lwfansau i Gynghorwyr ac erbyn hyn fe'u penderfynir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol
- ▶ Gall cyngorau wneud iawndal i aelodau am dreuliau a chostau wrth gyflawni eu dyletswyddau.
- ▶ Rhaid talu rhai lwfansau i bob aelod, ond gall aelodau unigol wrthod y tâl sy'n ddyladwy iddynt, yn gyfan neu'n rhannol.
- ▶ Rhaid i'r cyngor gyhoeddi manylion yr holl daliadau a wneir i bob cyngorydd.

Gallwch ddefnyddio'r we-ddolen ganlynol i weld manylion y lwfansau:-

<https://beta.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-02/irp-annual-report-2019.pdf>

BETH YW'R LWFANSAU?

- ▶ £150 y flwyddyn i dalu am gostau ffôn, deunydd swyddfa a thechnoleg gwybodaeth.
- ▶ Hyd at £500 ar gyfer uchafswm o 5 aelod a chanddynt gyfrifoldebau penodol (**Rhaid** i gynghorau mwy wneud taliadau i o leiaf un aelod a **gall** cynghorau canolig/llai dalu hyd at 5 aelod).
- ▶ Lwfansau Maer neu Gadeirydd y Cyngor (gan gynnwys Dirprwyon)
- ▶ Teithio, y tu fewn a'r tu allan i ardal y cyngor, a Lwfansau Cynhaliaeth.
- ▶ Lwfans Colled Ariannol pan ddigwyddodd colled o'r fath trwy fynychu dyletswyddau cymeradwy y tu allan i ardal y cyngor.
- ▶ Lwfans Gofal i ad-dalu costau gofal angenrheidiol i blant neu oedolyn dibynyddol neu i gynorthwyo cynghorwyr gyda'u hanghenion gofalu
- ▶ Telir lwfansau penodol ar ben y lwfans treuliau sylfaenol o £150

CYRSIAU HYFFORDDIANT UN LLAIS CYMRU

Modiwl	Modiwl
1. Y Cyngor	12. Creu Cynllun Cymunedol
2. Y Cynghorydd	13. Ymgysylltu a'r Gymuned Rhan II (Offerynnau & Thechnegau)
3. Y Cyngor yn Gyflogydd	14. Cydraddoldeb & Amrywiaeth
4. Deall y Gyfraith	15. Rheoli Gwybodaeth
5. Cyfarfodydd Cyngor	16. Defnyddio TG, Gwefannau a Chyfryngau Cymdeithasol
6. Cyllid Llywodraeth Leol	17. Gwneud Ceisiadau Grant Effeithiol
7. Iechyd & Diogelwch	18. Rholi Staff yn Effeithiol
8. Cyflwyniad I Ymgysylltu a'r Gymuned	19. Datganoli Gwasanaethau / Trosglwyddo Asedau
9. Cod Ymddygiad	20. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015/Cynaliadwyedd
10. Sgiliau Cadeiro	21. Cyllid Llywodraeth Leol - Uwch
11. Cynllunio ar gyfer Argyfyngau Cymunedol	22. Deall Cyfryngu

BETH AM BROFI EICH HUN

Ceisiwch ateb y canlynol :-

- 1) Sut all Cyngor godi arian i ariannu ei weithgareddau?
- 2) Beth yw tri phrif nod Cyngor?
- 3) Enwch dri pheth y dylai Cyngorau eu gwneud?
- 4) Enwch dri o ddyletswyddau Cyngorydd unigol?
- 5) Pwy sy'n pennu'r lwfansau y gellir eu talu i Gynghorwyr?

BETH NESAF?

Gan eich bod wedi mynd trwy'r modiwl Cynefino, awgrymir yn gryf y dylech ofyn i'ch Cyngor roi'r cyfle ichi fynd ar gwrs hyfforddiant ar y pwnc yma.

Mae'r hyfforddiant a gynigir gan Un Llais Cymru yn rhyngweithiol ac mae'n archwilio holl elfennau rôl y Cyngor yn y manylder y byddech yn ei ddisgwyl gan eich corff cynrychioliadol. Bydd hefyd yn rhoi'r cyfle ichi ymgysylltu â Chynghorwyr er mwyn eich galluogi i rannu profiadau a dysgu oddi wrth eich grŵp cymheiriaid.